# Hybu mynediad at wasanaethau tai a llety

## Trosolwg

Mae'r safon hon yn amlinellu’r gofynion wrth hybu mynediad at wasanaethau tai a llety. Mae hyn yn cynnwys cefnogi unigolion i nodi a chael mynediad at wasanaethau tai a llety addas. Mae hefyd yn cynnwys gweithio gyda gwasanaethau tai a llety i gwrdd â dewisiadau ac anghenion unigolion a chydweithio i werthuso'r gwasanaethau a ddarperir.

## Meini prawf perfformiad

*Rhaid i chi allu:*

1. cael caniatâd a chael gafael ar wybodaeth am sefyllfa gyfredol unigolion o ran tai a llety
2. gweithio mewn partneriaeth ag unigolion ac eraill i nodi gwasanaethau tai a llety i gwrdd â'u dewisiadau a'u hanghenion
3. gweithio mewn partneriaeth ag unigolion ac eraill i gael gafael ar wybodaeth am wasanaethau tai a llety
4. annog a chefnogi unigolion ac eraill i adolygu a nodi eu dewisiadau o'r opsiynau sydd ar gael
5. cefnogi unigolion i nodi unrhyw heriau a allai effeithio ar y gwasanaethau tai a llety sydd eu hangen arnynt
6. gweithio mewn partneriaeth ag unigolion ac eraill i ddewis gwasanaethau tai a llety
7. annog a chefnogi unigolion ac eraill i gysylltu a chael mynediad at wasanaethau tai a llety
8. darparu gwasanaethau tai a llety gyda gwybodaeth berthnasol am unigolion
9. gweithio mewn partneriaeth ag unigolion ac eraill i roi gwybod a lwyddwyd i gwrdd â'u dewisiadau a'u hanghenion, a nodi a mynd i'r afael ag unrhyw newidiadau
10. cwblhau'r cofnodion a'r adroddiadau sydd eu hangen ar gyfer gwasanaethau tai a llety
11. myfyrio ar sut y gwnaethoch chi gyflawni eich rolau a'ch cyfrifoldebau i hybu mynediad at wasanaethau tai a llety

## Gwybodaeth a dealltwriaeth

*Mae angen i chi wybod a deall:*

1. y berthynas rhwng tai a llesiant unigolion
2. natur y sector tai a dyletswyddau awdurdodau lleol i gefnogi unigolion i gael gafael ar dŷ
3. y gwahanol fathau o dai a llety sydd ar gael a sut i gael gafael arnynt
4. sut mae cefnogi dewisiadau ac anghenion unigolion o ran tai a llety
5. dylanwad niwrowahaniaeth ac anghenion ychwanegol ar ddewis gwasanaethau tai a llety
6. dylanwad diwylliant a chefndir ar y gwasanaethau tai a llety a ddefnyddir
7. yr heriau a'r problemau y gall unigolion eu hwynebu wrth gael mynediad at wasanaethau tai a llety
8. pwysigrwydd urddas, caredigrwydd a thosturi wrth gefnogi unigolion i gael mynediad at wasanaethau tai a llety
9. sut mae cefnogi rheoleiddio emosiynol wrth gael mynediad at wasanaethau tai a llety
10. sut mae defnyddio egwyddorion sy'n ystyriol o drawma i gefnogi unigolion i gael mynediad at wasanaethau tai a llety
11. y cymorth ariannol sydd ar gael i gefnogi unigolion â thai a llety
12. sut mae defnyddio dyfeisiau ac adnoddau digidol i hybu mynediad at wasanaethau tai a llety
13. sut mae adolygu a gwerthuso gwybodaeth am wasanaethau tai a llety
14. y cofnodion ac adroddiadau sydd eu hangen i gael mynediad at wasanaethau tai a llety
15. damcaniaethau sy’n berthnasol i hybu mynediad at wasanaethau tai a llety
16. y gofynion cyfreithiol, y safonau ymarfer, y fframweithiau a’r canllawiau perthnasol ar gyfer hybu mynediad at wasanaethau tai a llety
17. gofynion y gweithle mewn perthynas â chydraddoldeb, amrywiaeth, cynhwysiant a hawliau wrth hybu mynediad at wasanaethau tai a llety
18. sut mae gweithio mewn partneriaeth ag eraill i hybu mynediad at wasanaethau tai a llety
19. sut mae eich profiadau personol a’ch rhagfarn ddiarwybod yn gallu effeithio wrth hybu mynediad at wasanaethau tai a llety, a sut i fynd i’r afael â hyn
20. rôl goruchwyliaeth, ymarfer myfyriol, a dysgu a datblygu wrth hybu mynediad at wasanaethau tai a llety

## Geirfa

Mae'r eirfa ar gyfer y Safon Alwedigaethol Genedlaethol hon ar gael ar wefan Sgiliau Gofal a Datblygu.

# Hybu mynediad at wasanaethau tai a llety

| | |
|---|---|
| **Datblygwyd gan** | Skills for Care & Development |
| **Fersiwn rhif** | 1 |
| **Dyddiad cymeradwyo** | 31 Ion 2026 |
| **Dyddiad Adolygu Dangosol** | 31 Ion 2031 |
| **Dilysrwydd** | Ar hyn o bryd |
| **Statws** | Gwreiddiol |
| **Sefydliad cychwynnol** | Skills for Care and Development |
| **RCU gwreiddiol** | HSCCLD321 |
| **Galwedigaethau perthnasol** | Gofal Cymdeithasol a Gofal Plant |
| **Cyfres/Set** | Iechyd a Gofal Cymdeithasol a Gofal Plant, Dysgu a Datblygu |
| **Geiriau Allweddol** | Gwasanaethau tai, llety, Iechyd a Gofal Cymdeithasol a Gofal Plant, Dysgu a Datblygu |